

Teitl: Bil Cymru Rhif AE: Amh Adran neu asiantaeth arweiniol: Swyddfa Cymru Adrannau neu asiantaethau eraill: Trysorlys EM a Cyllid a Thollau EM	Asesiad Effaith (AE)		
	Dyddiad: 17/03/2014		
	Cam: Terfynol		
	Ffynhonnell yr ymyrraeth: Domestig		
	Math o fesur: Deddfwriaeth sylfaenol		
Cyswllt ar gyfer ymholiadau: Stuart Doubleday 0207 270 0579			
Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau			Barn yr RPC: Amherthnasol

Cost yr Opsiwn a Ffeirir (neu'r un mwyaf tebygol)

Cyfanswm y Gwerth Net Presennol	Gwerth Busnes Net Presennol	Cost net i fusnes y flwyddyn (Cost net i fusnes y flwyddyn (cost net flynyddol gyfwerth i fusnes ar sail prisiau 2009))	O fewn cwrpas y fethodoleg Un i Mewn Dau Allan	Y mesur yn cael ei ystyried yn
			Nac ydy	Amh

Beth yw'r broblem dan sylw? Pam mae angen i'r llywodraeth ymyrryd?

Mae Bil Cymru yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i gefnogi'r gwaith o weithredu argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad Rhan I y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012 a'r papur gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn y dyfodol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau arfaethedig?

Byddai'r Bil yn troi tymhorau'r Cynulliad yn gyfnodau penodol o bum mlynedd er mwyn ei gwneud yn llai tebygol y byddai etholiadau'r Cynulliad yn digwydd yr un pryd ag etholiadau seneddol y DU, ac yn cyflwyno darpariaethau etholiadol ychwanegol i wneud etholiadau i'r Cynulliad yn decach. Mae'r Bil yn datganoli pwerau trethu a benthycu i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru, gan roi mwy o ffyrdd i Lywodraeth Cymru hyrwyddo twf economaidd a thyfu economi Cymru, a gwneud y sefydliadau datganoledig yn fwy atebol drwy eu gwneud yn atebol am godi rhywfaint o'r arian y maent yn ei wario.

Pa opsiynau polisi sydd wedi'u hystyried, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau yn lle rheoleiddio? Rhowch gyfiawnhad dros yr opsiwn a ffeirir (mwy o fanylion yn y Sylfaen Dystiolaeth)

Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y darpariaethau ynghylch etholiadau i'r Cynulliad rhwng Mai ac Awst 2012. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Tachwedd 2012. Roedd yr argymhellion gan y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) yn ei adroddiad cyntaf yn seiliedig ar dystiolaeth a gymerodd ledled Cymru a thu hwnt. Ym mis Tachwedd 2013, derbyniodd Llywodraeth y DU y rhan fwyaf o argymhellion y Comisiwn i ddatganoli pwerau trethu a benthycu i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru.

A gaiff y polisi ei adolygu? Bydd yn cael ei adolygu. Os yw'n gymwys, rhowch ddyddiad yr adolygiad: 03/2018

A fydd ei weithredu'n mynd y tu hwnt i ofynnol sylfaenol yr UE?			Amherthnasol		
A yw unrhyw un o'r sefydliadau hyn o fewn ei gwmpas? Os nad yw sefydliadau micro wedi'u heithrio, nodwch y rheswm yn y Sylfaen Dystiolaeth.	Micro Ydy	< 20 Ydy	Bach Ydy	Canolig Ydy	Mawr Ydy
Beth fydd y newid cyfwerth â CO ₂ mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (cyfwerth â miliwn tonnell o CO ₂)	Wedi'i fasnachu: Dim		Heb ei fasnachu: Dim		

Rwyf wedi darllen yr Asesiad Effaith ac rwyf wedi fy modloni (a) ei fod yn rhoi golwg teg a rhesymol ar effaith, buddion a chostau disgwylidig y polisi, a (b) bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau.

Llofnod y SELECT SIGNATORY cyfrifol:		Dyddiad:	
--------------------------------------	--	----------	--

Crynodeb: Dadansoddi a Thystiolaeth

Opsiwn Polisi 1

Disgrifiad: Datganoli pŵerau trethu a benthyca i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN

Blwyddyn Sylfaen y Prisiau	Blwyddyn Sylfaen y GP	Cyfnod mewn Blynnyddoedd Amh	Budd Net (Gwerth Presennol (GP)) (£m)		
			Isel: Dewisol	Uchel: Dewisol	Amcangyfrif Gorau: Isel iawn

COSTAU (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn		Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)		Cyfanswm Cost (Gwerth presennol)
	Isel	Dewisol	?	Dewisol	
Uchel	Dewisol	Dewisol		Dewisol	Dewisol
Amcangyfrif Gorau	£45mil	£4.2mil			I'w gadarnhau

Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Llywodraeth y DU: Bydd benthyca Llywodraeth Cymru yn ychwanegu hyd at £500m i fenthyca cyhoeddus cyffredinol a dyled net y DU.

Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Llywodraeth Cymru: Bydd datganoli pŵerau trethu yn cynyddu cyfnewidioldeb cyllideb Llywodraeth Cymru, er bod dulliau newydd o reoli trethi (cronfa arian wrth gefn a phŵerau benthyca presennol) yn cael eu darparu i ddelio â hyn.

BUDDION (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn		Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)		Cyfanswm y Budd (Gwerth presennol)
	Isel	Dewisol	0	Dewisol	
Uchel	Dewisol	Dewisol		Dewisol	Dewisol
Amcangyfrif gorau	0	0		0	0

Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Dim

Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Llywodraeth Cymru: Cynyddu atebolrwydd ac ymreolaeth Llywodraeth Cymru. Bydd yn galluogi LIC i ariannu ei hun gyfran fwy o'i gwariant, rhoi trethi datganoledig ar waith, a phenderfynu pryd a sut i fenthyca er mwyn buddsoddi rhagor mewn seilwaith. Llywodraeth y DU: Mae hyn yn galluogi'r Llywodraeth i ddatganoli rhagor o bŵerau a chyfrifoldebau i'r lefel fwyaf priodol, sy'n gyson â'i hagwedd ehangach at leoliaeth. Mae datganoli pŵerau trethu a benthyca yn rhoi rhagor o ddulliau o sbarduno twf economaidd yng Nghymru i Lywodraeth Cymru.

Rhagdybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol /o/\ Amherthnasol	Cyfradd disgownt	
--	------------------	--

ASESIAD BUSNES (Opsiwn 1)

Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cyfwerth â Blwyddyn) £m:			O fewn cwmpas OITO? Y mesur yn cael ei ystyried yn
Costau: Braidd dim	Buddion: £0	Net: Braidd dim	Na Amh

Crynodeb: Dadansoddi a Thystiolaeth

Opsiw'n polisi 2

Disgrifiad: Hyd Tymor Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN

Blwyddyn Sylfaen y Prisiau 2013	Blwyddyn Sylfaen y GP 2012	Cyfnod mewn Blynnyddoedd 35	Budd Net (Gwerth Presennol (GP)) (£m)		
			Isel: Dewisol	Uchel: Dewisol	Amcangyfrif gorau: £4.5m

COSTAU (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm Cost (Gwerth presennol)
Isel	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Uchel	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Amcangyfrif gorau	Amh	£0.9m	£27.2m

Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

O ganlyniad i droi tymhorau'r Cynulliad yn dymhorau penodol o bum mlynedd, bydd etholiadau'n cael eu cynnal yn 2021, 2026, 2031, 2036 a phob pum mlynedd wedi hynny. Bydd y blynnyddoedd etholiad hyn yn arwain at ddwy gost â gwerth ariannol: disgwylir y bydd y Llywodraeth yn ysgwyddo cost weinyddol o £5.1 miliwn (yn nhermau prisiau 2013/14) wrth gynnal etholiadau a £0.2m mewn costau diswyddo. Disgwylir y bydd pleidiau gwleidyddol yn ysgwyddo cost o £1.1m. Ond, oherwydd bod etholiadau'n digwydd yn llai aml, bydd hyn yn llai costus na chadw at dymhorau pedair blynedd.

Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Gellir beirniadu'r tymhorau pum mlynedd am fod yn rhy hir - gan alluogi Llywodraethau i aros mewn grym am gyfnod hwy na'u hoes naturiol dybiedig, a allai arwain at anfodlonrwydd â'r Llywodraeth a'r broses wleidyddol yn gyffredinol ymysg y cyhoedd. Ond, mae rhaglenni ar gyfer y llywodraeth yn cael eu llunio i gyd-fynd â chyfnod tymhorau'r ddeddfwfa, ac mae gan senedd y DU dymhorau penodol o bum mlynedd.

BUDDION (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn	Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)	Cyfanswm y Budd (Gwerth presennol)
Isel	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Uchel	Dewisol	Dewisol	Dewisol
Amcangyfrif gorau		£1.0m	£31.7m

Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

O dan y dewis hwn, ni fydd etholiadau'n cael eu cynnal bellach yn 2020, 2024, 2028 na 2032. Felly mae dau arbediad â gwerth ariannol allweddol i'r blynnyddoedd etholiad hyn: arbediad gweinyddol o £5.1m yn sgîl peidio â chynnal etholiadau a £0.2m o daliadau dileu swyddi (prisiau 2013/14). Mewn blynnyddoedd lle byddai etholiadau'r Cynulliad yn cyd-redeg ag etholiadau San Steffan (yn 2020 a bob ugain mlynedd wedi hynny) byddai'r arbediad wedi bod yn £4.0m gan fod etholiadau sy'n cyd-redeg yn rhatach.

Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Mae sicrhau na fydd etholiadau'r Cynulliad a San Steffan yn cael eu cynnal fel arfer ar yr un diwrnod yn atal dryswch posibl i bleidleiswyr, gan leihau'r tebygolrwydd y derbynir papurau pleidleisio sydd wedi'u difetha, er budd y broses ddemocrataidd yng Nghymru.

Rhagdybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol

Cyfradd disgownt (%)

Tybir na fydd etholiadau Cynulliad na Seneddol eithriadol yn cael eu galw; tybir y bydd yr holl gostau'n codi yn unol â chwyddiant; tybir bod gwariant pleidiau gwleidyddol ym mhob etholiad i'r Cynulliad wedi'i gyfrifo ar sail cyfartaledd cyfanswm gwariant gwirioneddol pleidiau mewn pedwar etholiad blaenorol i'r Cynulliad; a thybir bod gan bob Aelod Cynulliad sy'n colli'i sedd hawl i dâl diswyddo llawn am 6 mis.

ASESIAD BUSNES (Opsiw'n 2)

Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cyfwerth â Blwyddyn)£m:			O fewn cwmpas OIOO? Y mesur yn cael ei ystyried yn	
Costau: Amh	Buddion: Amh	Net: Amh	Na	Amh

Crynodeb: Dadansoddi a Thystiolaeth

Opsiwn Polisi 3

Disgrifiad: Mandadau Lluosog

ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN

Blwyddyn Sylfaen y Prisiau 2013	Blwyddyn Sylfaen y GP 2015	Cyfnod men blynnyddoedd 10	Budd Net (Gwerth Presennol (GP)) (£m)		
			Isel: Dewisol	Uchel: Dewisol	Amcangyfrif gorau: -£0.1m

COSTAU (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn		Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)		Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol)
	Isel	Dewisol		Dewisol	
Uchel	Dewisol		Dewisol	Dewisol	
Amcangyfrif gorau		Amh		£0.01m	£0.1m

Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
 Mae Aelodau Cynulliad sydd hefyd yn ASau yn gweld gostyngiad 2/3 neu £36,000 yn eu cyflogau yn 2013/14. Ar hyn o bryd does dim un Aelod Cynulliad yn eistedd fel AS hefyd. Ond cafwyd tair blynedd ers 2003 lle bu Aelod Cynulliad â mandad deuol. Gan dybio y bydd nifer y mandadau deuol yn aros yn gyson (0.4 Aelod Cynulliad y flwyddyn), a bod y 0.4 Aelod Cynulliad yn hawlio cyflog, byddai arbediad blynnyddol cyfartalog o £13,600 (£36,000 x 0.4) yn cael ei golli oherwydd y dewis hwn.

Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
 Mae eistedd mewn dwy ddeddfwrfa yr un pryd yn gallu creu perthynas fwy clos rhwng y ddwy ddeddfwrfa a fyddai'n cael ei golli petai gwaharddiad ar ymgeisio deuol.

BUDDION (£m)	Cyfanswm Trosiant (Pris Cyson) Blwyddyn		Cyfartaledd Blynnyddol (heb gynnwys trosiant) (Pris Cyson)		Cyfanswm y Budd (Gwerth presennol)
	Isel	Dewisol		Dewisol	
Uchel	Dewisol		Dewisol	Dewisol	
Amcangyfrif gorau					

Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
 Dim

Costau allweddol eraill heb werth ariannol o ran y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
 Mae gwaharddiad ar fandadau deuol rhwng y Cynulliad a San Steffan yn helpu i sicrhau bod etholwyr Cymru yn cael eu cynrychioli'n iawn yn y ddwy ddeddfwrfa.

Rhagdybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol (%)	Cyfradd disgownt	3.5%
--	------------------	------

Mae'n tybio bod nifer yr aelodau yng Nghynulliad Cymru sydd hefyd yn eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin yn aros yn gyson ar lefelau 2003-11; y bydd cyflogau Cynulliad Cymru yn codi yn unol â chwyddiant; a bod y gwaharddiad yn cychwyn yn 2015.

ASESIAD BUSNES (Opsiwn 3)

Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cyfwerth â Blwyddyn £m):			O fewn cwmpas OIIO? Y mesur yn cael ei ystyried yn	
Costau: Amh	Buddion: Amh	Net: Amh	Na	Amh

Sylfaen Dystiolaeth (ar gyfer y taflenni crynodeb)

RHAN 1 – MESURAU ETHOLIADOL YM MIL CYMRU

MABWYSIADU TYMHORAU PUM MLYNEDD

Problem dan ystyriaeth

Mae Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011 wedi symud etholiad nesaf y Cynulliad ymlaen un flwyddyn i 2016 am unwaith yn unig fel na fydd yn digwydd yr un pryd ag etholiad seneddol nesaf y DU yn 2015. Ond newidiodd y Cynulliad yn ôl i dymhorau pedair blynedd ar ôl hynny ac mae disgwyl y bydd Etholiad Cyffredinol ar gyfer y DU ac Etholiad ar gyfer y Cynulliad yng Nghymru yn cael eu cynnal.

Amcan y polisi

Mae'r Llywodraeth eisiau sicrhau bod etholiadau'r Cynulliad mor deg a chyfartal â phosibl, gan roi mandad clir a diamheuol i unrhyw Lywodraeth Cymru.

Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim)

Fel rhan o'r Papur Gwyrdd ar Drefniadau Etholiadol y Dyfodol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Papur Gwyrdd"), ymgynghorodd y Llywodraeth ar gynnig i ymestyn tymhorau'r Cynulliad yn barhaol i bum mlynedd er mwyn ei gwneud yn llai tebygol iddynt cyd-ddigwydd ag etholiadau seneddol yn y dyfodol. Yr opsiwn arall oedd parhau â thymhorau pedair blynedd ar gyfer y Cynulliad a derbyn y bydd rhai o etholiadau'r Cynulliad yn digwydd yr un pryd ag etholiadau seneddol y DU (bob ugain mlynedd).

Costau a buddion pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr i'r ymgynghoriad o blaid yr opsiwn i symud i dymhorau pum mlynedd ar gyfer y Cynulliad ac, ym Mawrth 2013, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru fwriad y Llywodraeth i symud y Cynulliad i dymhorau pum mlynedd gydag etholiadau'n cael eu cynnal bob pum mlynedd o 2016. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyn.

Mae'r Llywodraeth yn bryderus y gallai etholiad ledled y DU megis etholiad cyffredinol seneddol fod yn anafanteisiol i etholiad a gynhelir dim ond yng Nghymru. Mae i'w ddisgwyl y byddai llawer o sylw'r cyfryngau'n canolbwyntio ar yr etholiad ledled y DU yn hytrach nag ar etholiad y Cynulliad. Mae'r Llywodraeth am leihau dryswch ymysg pleidleiswyr ynghylch beth, ac i bwy, y maent yn pleidleisio, Felly er mwyn osgoi hyn, rhaid newid i dymhorau pum mlynedd ar gyfer y Cynulliad.

Byddai ymestyn tymhorau'r Cynulliad o bedair i bum mlynedd yn galw am gynnal etholiadau i'r Cynulliad yn llai aml. Nododd y Papur Gwyrdd mai cost gweinyddu etholiadau'r Cynulliad yw £5.0 miliwn yn nhermau prisiau 2012/13 (£5.1 miliwn yn nhermau prisiau 2013/14), ac maent hefyd yn costio £1.1 miliwn pellach i bleidiau gwleidyddol yn nhermau prisiau 2012/13 (£1.1 miliwn yn nhermau prisiau 2013/14), gan roi arbediad bach o £4.4miliwn yn nhermau Gwerth Presennol Net (£4.5 miliwn yn nhermau Gwerth Presennol Net 2013/14).

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Dim

YMGEISYDDIAETH DDEUOL

Problem dan ystyriaeth

Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi addasu'r setliad datganoli gwreiddiol i wahardd ymgeiswyr mewn etholiad i'r Cynulliad rhag sefyll mewn etholaeth ac ar restr ranbarthol yr un pryd. Ystyriwyd bod y ddarpariaeth hon yn annheg i bleidiau llai yng Nghymru sydd o bosibl â llai o ymgeiswyr o safon uchel i'w cynrychioli mewn etholiadau. Mae hefyd yn dwysau'r broblem o ymgeiswyr ar y rhestr yn elwa ar y ffaith bod ymgeiswyr mewn etholaethau wedi cael eu trechu.

Amcan y polisi

Gwneud y system etholiadol yng Nghymru cyn deced â phosibl i bob ymgeisydd a sicrhau y ceir yr Aelodau Cynulliad gorau posibl.

Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim)

Yn y Papur Gwyrdd, ymgynghorodd y Llywodraeth ar godi'r gwaharddiad ar ymgeisio deuol a gyflwynwyd yn Neddf 2006. Roedd y Llywodraeth hefyd yn gofyn am sylwadau ar yr opsiwn arall, cadw'r gwaharddiad presennol.

Costau a buddion pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)

Ym mis Mawrth 2013, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru fwriad y Llywodraeth i gael gwared â'r gwaharddiad ar ymgeisio deuol yn etholiadau'r Cynulliad. Roedd mwyafrif bach o ymatebwyr i'r ymgynghoriad o blaid cadw'r gwaharddiad, ond nid yw'r Llywodraeth yn credu bod dadl ddigon cryf wedi'i chyflwyno o blaid hyn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Yn y Papur Gwyrdd, ni nodwyd unrhyw gostau ariannol ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â gwrth-droi'r gwaharddiad ar ymgeisyddiaeth ddeuol.

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Dim

GWAHARDD MANDADAU LLUOSOG

Problem dan ystyriaeth

Ar hyn o bryd mae'n bosibl eistedd fel AS ac fel AC yr un pryd, sefyllfa sy'n cael ei gwahardd yng ngogledd Iwerddon. Dyma sefyllfa y mae llawer yn teimlo sy'n annheg ac yn anghynaliadwy.

Amcan y polisi

Roedd mwyafrif mawr o ymatebwyr i'r Papur Gwyrdd o blaid gwahardd yr hyn a elwir yn "swyddi deuol", ac mae'r Llywodraeth yn ceisio cyflwyno gwaharddiad o'r fath. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i atal Aelod Seneddol rhag eistedd yn Aelod Cynulliad yr un pryd, ar ôl cyfnod gras o 8 diwrnod.

Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim)

Yn y Papur Gwyrdd, ymgynghorodd y Llywodraeth ar ddau brif opsiwn: parhau i ganiatáu i ACau eistedd hefyd fel ASau, neu atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol. Fel rhan o'r opsiwn olaf, roedd y Llywodraeth o'r farn y gellid gweithredu hyn naill ai drwy gytundeb rhwng y pleidiau gwleidyddol neu ei sicrhau drwy ddeddfwriaeth. Roedd y Papur Gwyrdd hefyd yn gofyn barn ynghylch a ddylai unrhyw waharddiad gynnwys aelodau o Dŷ'r Arglwyddi hefyd yn y dyfodol. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr hefyd at y posibilrwydd o wahardd mandadau lluosog ar gyfer cynrychiolwyr etholiadol eraill megis aelodau o Senedd Ewrop, Cynghorwyr ac Arglwyddi.

Costau a buddion pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)

Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad o blaid gwahardd swyddi deuol ("double jobbing"), a chyhoeddodd y Llywodraeth ym Mawrth 2013 ei bwriad i gyflwyno gwaharddiad. Er bod cysylltiadau rhwng deddfwrfeydd gwahanol y DU yn bwysig ac i'w hannog, nid yw'r Llywodraeth yn credu bod modd i Aelod Cynulliad gynrychioli ei etholwyr yn llawn na rhoi ei sylw llawn i'w rôl fel AC os oes raid iddo hefyd dreulio cyfran helaeth o'i amser yn San Steffan.

Nododd y Papur Gwyrdd fod cost ddichonol o £13,600 y flwyddyn i'r Cynulliad am weithredu'r darpariaethau, gan fod cyflogau ACau sydd hefyd yn eistedd yn ASau yn ddwy ran o dair yn llai, a byddai

gwahardd trefniadau o'r fath yn golygu bod mwy o ACau yn cael eu cyflog llawn. Ond, ar hyn o bryd, nid oes yr un AC hefyd yn eistedd fel AS. Felly ni fyddai cost ychwanegol ar hyn o bryd yn sgîl y newid hwn. Rydym yn credu y byddai'r ffaith bod etholwyr yng Nghymru yn gwybod eu bod yn cael eu cynrychioli'n llawn gan y rheini y maent yn eu hethol yn drech nag unrhyw gost ychwanegol.

Gofynnwyd yn y Papur Gwyrdd hefyd am sylwadau ynghylch a ddylai'r gwaharddiad ar fandadau lluosog fod yn berthnasol i aelodau Tŷ'r Arglwyddi, er bod y Llywodraeth wedi penderfynu yn erbyn hyn. Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at wahardd cynghorwyr lleol ac Aelodau Senedd Ewrop rhag eistedd hefyd fel ACau.

Rydym eisiau sicrhau bod ACau o'r safon uchaf posibl. Byddai atal cynghorwyr rhag eistedd fel ACau yn lleihau'r gronfa o ymgeiswyr talentog sydd ar gael i bleidiau gwleidyddol, a allai arwain at ddirywiad yn safon ACau a etholir i'r Cynulliad ei hun.

Ers sefydlu'r Cynulliad, nid oes yr un AC wedi dal sedd hefyd yn Senedd Ewrop. Mae rhai o aelod-wladwriaethau'r UE yn gwahardd aelodau o ddeddfwrfeydd is-genedlaethol rhag eistedd fel ASE hefyd ond ar sail gwlad. Byddai deddfu ar y sail hon ar draws holl ddeddfwrfeydd is-genedlaethol y DU y tu allan i gwmpas y Bil hwn.

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Dim

RHAN 2 – MESURAU TRETHU YN Y BIL

TRETHI DATGANOLEDIG NEWYDD

Problem dan ystyriaeth

Efallai y bydd yn ofynnol/ddymunol cyflwyno trethi datganoledig newydd yng Nghymru, naill ai drwy i'r Llywodraeth ddatganoli rhagor o'r trethi presennol neu drwy i Lywodraeth Cymru greu trethi datganoledig newydd yng Nghymru.

Amcan y polisi

Gallu cyflwyno trethi datganoledig newydd yng Nghymru gyda'r lefel briodol o graffu gan y senedd.

Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim)

Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn argymhelliad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer i ddeddfu i gyflwyno trethi penodol yng Nghymru, gyda chytundeb Llywodraeth y DU. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth y DU eisiau gallu datganoli rhagor o'r trethi presennol gyda chytundeb Llywodraeth Cymru. Yn y ddwy sefyllfa, byddai ar yr amod y bydd ar sail yr egwyddor o "ddim niwed", fel y bydd grant bloc Llywodraeth Cymru yn cael ei addasu os oedd disgwyl i dreth ddatganoledig newydd yng Nghymru leihau referniw'r Trysorlys.

Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer proses Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor ar gyfer pennu treth ddatganoledig ychwanegol, yn amodol ar gymeradwyaeth Seneddol Dau Dŷ'r Senedd a'r Cynulliad.

Byddai modd darparu ar gyfer proses Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor na fyddai angen cymeradwyaeth seneddol ffurfiol. Dewis arall fyddai peidio â chynnwys y pŵer hwn yn y Bil fel y byddai angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol i greu rhagor o drethi datganoledig.

Costau a buddion pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)

Y mae achos clir eisoes lle y bydd y Llywodraeth o bosibl, yn y dyfodol, yn dymuno defnyddio'r pŵer hwn. Mae hyn yn ymwneud â'r ardoll agregau, y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei datganoli, yn amodol ar gael penderfyniad boddhaol yng nghyswllt yr heriau cyfreithiol presennol. Ni fyddai'r Llywodraeth yn awyddus i orfod defnyddio amser seneddol ar ddeddfwriaeth sylfaenol i gyflawni hyn. Mae'n bosibl y bydd yr un amgylchiadau yn berthnasol i fân drethi eraill yn y dyfodol. Serch hynny, mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i sicrhau bod penderfyniad o'r fath yn destun proses graffu ddigonol gan y senedd a theimlir mai'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yw'r opsiwn mwyaf priodol.

Ar hyn o bryd, nid oes modd meintoli costau nac effeithiau creu rhagor o drethi datganoledig yng Nghymru, gan mai mater i Lywodraeth Cymru fyddai penderfyniadau ynghylch cynllunio a gweinyddu trethi datganoledig newydd.

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Dim. Fel y nodwyd uchod, mater i Lywodraeth Cymru fyddai costau unrhyw newidiadau i'r drefn drethi bresennol a byddai angen eu hystyried fesul achos unigol.

TRETH INCWM

Problem dan ystyriaeth

Roedd y cylch gorchwyl ar gyfer Rhan I o Gomisiwn Silk yn nodi mai ei rôl oedd “Adolygu’r dadleuon o blaid datganoli pwerau cyllidol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac argymell pecyn o bwerau a fyddai’n gwella atebolrwydd ariannol y Cynulliad, sy’n gyson ag amcanion cyllidol y Deyrnas Unedig ac yn debygol o dderbyn cefnogaeth eang”. Egwyddor sylfaenol y mesurau trethu yn y Bil yw cyfnewid rhan o’r grant bloc am bŵer i’r Cynulliad godi rhywfaint o’i referniw ei hun drwy godi trethi, gan wneud y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn fwy atebol i’r bobl sy’n eu hethol.

Y dreth allweddol yr oedd y Comisiwn yn argymell ei datganoli er mwyn gwella atebolrwydd oedd elfen o dreth incwm.

Amcan y polisi

Gwella atebolrwydd Llywodraeth Cymru drwy roi’r cyfrifoldeb iddi dros ariannu rhan fwy o’i gwariant a chysylltu maint ei chyllideb â thwf economaidd yng Nghymru.

Disgrifiad o’r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim)

Opsiwn 1 – treth incwm 10c gyda chyfraddau’n cael eu cloi (*lockstep*)

Mae’r Bil yn darparu ar gyfer rhannu’r sylfaen treth incwm yng Nghymru rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn amodol ar refferendwm. Bydd hyn yn golygu didynnu 10c o’r cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol yng Nghymru a chaniatáu i Lywodraeth Cymru benderfynu, ac i’r Cynulliad osod, un gyfradd dreth incwm Gymreig ar draws yr holl fandiau treth. Byddai penderfyniadau ynghylch strwythur a throthwyon system dreth incwm ehangach y DU yn parhau i gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU. Byddai CThEM yn parhau i gasglu’r gyfradd dreth incwm Gymreig newydd o fewn y fframweithiau presennol ar gyfer TWE a Hunanasesu. Bydd y gyfradd Gymreig yn gymwys i incwm o enillion, pensiynau a ffynonellau eraill heblaw cynilion yn unig.

Opsiwn 2 – treth incwm 10c heb i gyfraddau gael eu cloi (*lockstep*)

Argymhellodd y Comisiwn y dylai Llywodraeth Cymru allu gosod cyfraddau treth incwm Cymreig ar wahân ar gyfer pob un o’r tri band, yn hytrach na’r system a nodir uchod (sydd yr un fath â’r hyn a gyflwynir gan Ddeddf yr Alban 2012), lle bydd un gyfradd Gymreig yn cael ei chymhwyso ar draws yr holl fandiau.

Opsiwn 3 – Peidio â datganoli’r dreth incwm 10c

Costau a buddion pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)

Disgrifiodd y Comisiwn nifer o fuddion yn sgîl datganoli elfen o dreth incwm. Yn benodol, roedd yn cydnabod mai’r dreth incwm yw’r dreth fwyaf yn y DU (sy’n cynhyrchu oddeutu 30% o gyfanswm referniw trethi yng Nghymru, tua £4.85 biliwn yn 2010-11) a’r un y mae’r rhan fwyaf o bobl yn ei thalu. Felly byddai gan lawer o boblogaeth Cymru ddiddordeb clir yn y penderfyniadau ar dreth incwm a wneir gan y Cynulliad. Yn arolwg barn y Comisiwn ynghylch datganoli treth incwm, cafwyd bod 64% o blaid hynny a 33% yn erbyn. Nododd y Comisiwn mai un o brif ganfyddiadau’r arolwg barn oedd bod mwyafrif yn credu y byddai datganoli pwerau treth incwm yn peri i Lywodraeth Cymru weithio’n galetach i gynyddu referniw a hybu economi Cymru.

Felly, byddai datganoli elfen o dreth incwm yn rhoi’r gallu i Lywodraeth Cymru amrywio ei chyllideb a byddai hefyd yn amlwg yn ei gwneud yn fwy atebol i bobl Cymru. Byddai hefyd yn darparu ffrwd referniw annibynnol sylweddol y gallai Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i fenthycu er mwyn buddsoddi yn seilwaith Cymru. Roedd y Comisiwn hefyd yn argymell dull o addasu’r grant bloc (yng nghyswllt datganoli treth incwm) a fyddai’n cysylltu maint cyllideb Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol â thwf economaidd yng Nghymru gan warchod Cymru rhag effeithiau macro-economaidd ledled y DU y mae Llywodraeth y DU mewn sefyllfa well i’w rheoli.

Felly, mae Llywodraeth y DU yn credu y byddai buddion sylweddol yn gysylltiedig â datganoli elfen o dreth incwm i'r Cynulliad.

Ond, er bod Comisiwn Silk wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gallu gosod cyfraddau treth incwm Cymreig ar wahân ar gyfer pob un o'r tri band, barn y Llywodraeth yw mai un gyfradd Gymreig ar gyfer y tri band (fel sy'n cael ei chyflwyno yn yr Alban) yw'r system fwyaf priodol i Gymru. Mae'r Llywodraeth yn credu'n bendant bod y strwythur treth incwm yn ddull allweddol o aiddosbarthu cyfoeth ar draws y Deyrnas Unedig gyfan, a dyma pam mai ar lefel y DU y dylid penderfynu orau sut ddylai'r system hon symud yn ei blaen. Mae cynnwys y system cloi cyfraddau hefyd yn gyson â'r egwyddor na ddylai datganoli ariannol elwa un rhan o'r DU ar draul rhan arall – gallai hyn ddigwydd pe bai Llywodraeth Cymru'n gallu gosod cyfradd sylweddol is ar gyfer trethdalwyr uwch / ychwanegol heb fod angen newid y gyfradd sylfaenol (gan felly ddenu pobl sy'n ennill mwy i groesi'r ffin, gan elwa Cymru ar draul y DU yn gyffredinol). Barn y Llywodraeth, felly, yw bod y system cloi cyfraddau yn sicrhau'r manteision allweddol sydd mewn golwg gan y Comisiwn (rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru ym maes trethi a gwariant, a'i gwneud hefyd yn fwy atebol am ariannu ei gwariant) ond eto'n cadw strwythur aiddosbarthu sy'n gyson ar draws y DU a lleihau unrhyw risgiau cysylltiedig o gystadleuaeth trethi.

Os ceir pleidlais o blaid mewn refferendwm, bydd costau ynghlwm wrth weithredu'r gyfradd dreth incwm Gymreig. Yn gyson â *Datganiad Polisi Ariannu* Llywodraeth y DU, bydd y costau datganoli hyn yn gorfod cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifwyd bod cost uwchraddio systemau TG a phrosesau gweithredu Cyllid a Thollau EM i ddelio â'r newidiadau mewn pwerau treth incwm o ganlyniad i Ddeddf yr Alban 2012 tua £40-45 miliwn, a bod y costau rhedeg blynyddol oddeutu £4.2 miliwn. Gall y gwersi sy'n cael eu dysgu drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Cyllid a Thollau EM helpu i leihau'r costau gweithredu yng Nghymru, yn enwedig gan y byddai'r gyfradd Gymreig arfaethedig yn gweithio fel yr un yn yr Alban. Gallai'r ffaith bod poblogaeth Cymru yn llai na phoblogaeth yr Alban olygu y bydd costau heb fod yn gostau TG sy'n deillio o gyswllt â threthdalwyr yn llai, er y gallai mwy o weithgarwch economaidd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr (nag rhwng yr Alban a Lloegr) arwain at fwy o ymholiadau ar gyfartaledd gan drethdalwyr yng Nghymru ac felly'n llyncu rhai o'r arbedion hyn. Hefyd, gall cyflwyno'r gyfradd Gymreig olygu bod yn rhaid i Cyllid a Thollau Em ymestyn ei linell gymorth Gymraeg i gefnogi ei gwsmeriaid a delio â chwestiynau penodol. Mae'n bosibl hefyd y bydd costau ychwanegol ar gyfer cydymffurfio wrth ddelio â mathau penodol o incymau a gostyngiadau yn y dreth fel Cymorth Rhodd a gostyngiadau yn y dreth ar gyfer cynlluniau pensiwn. Disgwylir y bydd y costau gweithredu diweddaraf ar gyfer cyfradd dreth incwm yr Alban yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill ac efallai y gellir defnyddio'r ffigurau hyn i lunio rhagamcan yn benodol ar gyfer gweithredu'r gyfradd Gymreig yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd.

Yn yr un modd, byddai unrhyw gostau sy'n codi oherwydd yr angen i addasu systemau talu budd-daliadau yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Gallai hyn godi, er enghraifft, oherwydd y berthynas rhwng y system dreth a rhai budd-daliadau a weithredir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Gall fod effaith ar yr holl gyflogwyr yn y DU, lle bynnag y maent, gan y bydd angen i'w systemau cyflogres allu gweithredu TWE ar y gyfradd dreth incwm Gymreig ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn gweithredu yn yr un ffordd â chyfradd dreth incwm yr Alban, y disgwylir iddi gael ei chyflwyno ym mis Ebrill 2016 – bydd angen i gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau cyflogres newid eu system pan gyflwynir cyfradd yr Alban. Felly, bydd yr union effaith ar systemau yn dibynnu ar y graddau y byddant wedi'u diweddarau'n flaenorol i ddelio â chyfradd dreth incwm yr Alban. Mae'n bosib y bydd y ffaith fod y ddwy gyfradd wedi'u cynllunio i weithio yn yr un ffordd yn helpu i leihau'r costau i fusnesau.

REFERENDWM

Problem dan ystyriaeth

Sut y dylid cael cymeradwyaeth etholwyr Cymru ar gyfer datganoli pwerau treth incwm i Lywodraeth Cymru?

Amcan y polisi

Mae'r Llywodraeth yn dymuno sicrhau bod pobl Cymru wedi cytuno i ddatganoli pwerau treth incwm.

Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim)

Mae'r Bil yn gweithredu argymhelliad y Comisiwn y dylid cynnal refferendwm cyn y bydd unrhyw bwerau i amrywio treth incwm yn cael eu datganoli i Gymru. Byddai refferendwm yn cael ei gychwyn gan bleidlais yn y Cynulliad, a byddai angen i fwyafrif y pleidleiswyr yn y refferendwm hwnnw gefnogi datganoli treth incwm o 10c gyda chyfraddau'n cael eu cloi (lock-step) (opsiwn yn yr adran flaenorol) er mwyn i'r Cynulliad allu gosod cyfradd dreth incwm Gymreig.

Nid yw opsiynau eraill a ystyriwyd yn gweithredu argymhelliad y Comisiwn. Mae'r rhain yn cynnwys "gwneud dim" - gweithredu'r broses datganoli treth incwm heb unrhyw gyfeiriad at etholwyr Cymru - neu ddibynnu ar gynnwys mater datganoli treth incwm ym maniffestos y pleidiau ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2015 (a/neu etholiad y Cynulliad yn 2016) er mwyn rhoi'r dilysrwydd gwleidyddol gofynnol.

Nid yw'r Llywodraeth o blaid yr un o'r opsiynau eraill hyn. Byddai datganoli treth incwm yn newid cyfansoddiadol pwysig, yn bwysicach na datganoli treth dir y dreth stamp na'r dreth tirlenwi o ran cwantwm y referniw treth a nifer y bobl yng Nghymru sy'n talu'r dreth. Felly, dylai etholwyr Cymru roi eu barn am yr egwyddor o ddatganoli treth incwm cyn bwrw ymlaen â'r mater. Ymgynghorwyd ag etholwyr yr Alban mewn refferendwm yn 1997 cyn y datganolwyd elfen o dreth incwm i'r Alban, ac mae'r Llywodraeth yn credu y dylid ymgynghori yn yr un modd ag etholwyr Cymru.

Roedd y Pwyllgor Materion Cymreig yn cefnogi'r farn hon yn ei adroddiad craffu cyn deddfu ar Fil Drafft Cymru, gan ddod i'r casgliad bod "datganoli treth yn fater cyfansoddiadol pwysig ac mae angen i'r etholwyr benderfynu ar yr egwyddor cyn bwrw ymlaen â'r broses."

Costau a buddion pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)

Mae'r Llywodraeth yn cytuno â chanfyddiadau'r Comisiwn y "dylid cynnal refferendwm yng Nghymru cyn cael unrhyw newid sylfaenol o ran trosglwyddo pwerau i amrywio trethi". Yn 2011 cynhaliwyd refferendwm yng Nghymru ynghylch a ddylid rhoi pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad yn yr ugain maes sydd wedi'u datganoli iddo. Roedd y refferendwm yn yr Alban ar ddatganoli yn 1997 yn cynnwys cwestiwn ar bwerau treth incwm. Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai'n anghywir peidio â rhoi i bobl Cymru yr un dewis ag a gafodd pobl yr Alban yn 1997.

Cafwyd gwybod gan y Comisiwn Etholiadol fod ymgyrch y refferendwm yn 2011 wedi costio cyfanswm o £5.89 miliwn. Roedd y ffigur hwn yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, yn rhannol am nad oedd y Comisiwn Etholiadol wedi dynodi ymgyrchoedd swyddogol "o blaid" ac "yn erbyn", fel nad oedd unrhyw arian cyhoeddus wedi'i wario ar eu hymgyrchu. Petai refferendwm yn cael ei gynnal ar bwerau treth incwm, Llywodraeth Cymru fyddai'n ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r gost, a fyddai'n gyfrifol am y trefniadau etholiadol. Bydd costau ymgyrch refferendwm i'r Comisiwn Etholiadol, megis ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd y bydd yn eu cynnal ac unrhyw arian y mae'n ei ddarparu i ymgyrchoedd "o blaid" neu "yn erbyn" a ddynodir, yn cael eu talu i'r Comisiwn gan Bwyllgor y Llefarydd ar ben ei arian arferol.

Ni fyddai costau uniongyrchol i'w hwynebu wrth geisio cael dilysrwydd democrataidd i'r broses datganoli treth incwm drwy faniffestos pleidiau, yn hytrach na refferendwm. Ond, fel y nododd y Comisiwn, "hyd yn oed pe byddai pob un o'r pleidiau'n cefnogi ein cynigion yn ei maniffesto nesaf, mae'n annhebygol y byddai'r mater hwn yn brif ystyriaeth gan etholwyr wrth benderfynu sut i fwrw eu pleidlais." O'r herwydd, byddai'r mandad ar gyfer datganoli treth incwm yn sylweddol wannach na chael cymeradwyaeth mewn refferendwm, pan fyddai pleidleiswyr yn bwrw'u pleidlais yn benodol o blaid neu yn erbyn y newid.

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Dim

DATGANOLI TRETH DIR Y DRETH STAMP

Problem dan ystyriaeth

Roedd y Comisiwn yn argymhell datganoli treth dir y dreth stamp (TDDS), gyda gostyngiad cyfatebol yn cael ei wneud i'r grant bloc. Byddai hyn yn galluogi'r Cynulliad i godi ei drethi ei hun ar drafodion tir ac adeiladau.

Amcan y polisi

Darparu arf ychwanegol i Lywodraeth Cymru i'w galluogi i reoli polisi tai yng Nghymru, yn ogystal â ffrwd refereniw annibynnol i fenthycy yn ei erbyn.

Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim)

Mae'r Bil hwn yn rhoi rheolaeth lawn i'r Cynulliad ynghylch a ddylid/sut i drethu trafodion tir ac adeiladau yng Nghymru.

Byddai'r opsiwn gwneud dim yn golygu y byddai'r pŵer i osod TDDS yng Nghymru yn aros gyda Llywodraeth y DU.

Costau a buddion pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)

Mae'r Llywodraeth wedi cytuno ag argymhelliad y Comisiwn y byddai o fudd i Lywodraeth Cymru petai'n gallu gweithredu dull o drethu trafodion tir ac adeiladau ar gyfer amgylchiadau penodol Cymru. Mewn arolwg barn a gomisiynwyd gan y Comisiwn, cafwyd bod 67% o ymatebwyr yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gael hawl i amrywio lefel TDDS.

Y derbyniadau o TDDS ar drafodion tir yng Nghymru oedd £139 miliwn yn 2012-13. Yn yr un modd â mannau eraill, bydd derbyniadau'n amrywio yn ôl gweithgarwch a phrisiau yn y farchnad eiddo: roeddent ar eu huchaf yn 2006-07 ar £235 miliwn. Er y byddai treth ddatganoledig ar drafodion tir yng Nghymru yn caniatáu i Lywodraeth Cymru godi neu ostwng y cyfraddau treth, mae ymchwil a ddyfynnwyd gan y Comisiwn yn ei adroddiad ar Ran I yn dangos mai dylanwad ffiniol yn unig a gaiff costau trafodion fel TDDS ar benderfyniadau gan unigolion ynghylch lleoliad ac na fyddent yn debygol o fod yn ffactor tyngedfennol wrth benderfynu ble i symud.

I asesu rhagor ar gostau a buddion datganoli TDDS, cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad rhwng Gorffennaf a Medi 2013 ar effeithiau posibl hynny ar y diwydiant adeiladu a'r farchnad dai ar ddwy ochr y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Fel y nodwyd mewn atodiad i ymateb y Llywodraeth i adroddiad Rhan 1 y Comisiwn, cafwyd 40 ymateb, gan gynnwys ymatebion oddi wrth gyrff proffesiynol, cyrff cynrychiadol, datblygwyr eiddo, syrfewyr siartredig ac unigolion. O'r ymatebion hyn, roedd 15 o blaid y datganoli a 10 yn erbyn. Roedd y 15 ymateb arall yn niwtral eu barn neu heb fynegi barn o blaid neu yn erbyn datganoli.

Y rhesymau pennaf a roddwyd gan y rheini a oedd yn erbyn y datganoli oedd y posibilrwydd y byddai trethi'n cynyddu neu fanteision system dreth unedig. Roedd y rheini a oedd o blaid datganoli yn dwyn sylw at nodweddion unigryw farchnad eiddo Cymru, y cysylltiad â meysydd polisi presennol Llywodraeth Cymru (tai a datblygu economaidd) neu mynegwyd cefnogaeth amodol ganddynt i'r newid, yn amodol ar ddiwygiadau yr oeddynt am eu gweld yn cael eu rhoi ar waith.

Bydd costau'r newidiadau sydd eu hangen yn systemau TG a phrosesau busnes Cyllid a Thollau EM i ddatganoli TDDS yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn gyson â Datganiad Polisi Ariannu Llywodraeth y DU. Mae Cyllid a Thollau EM yn gwneud newidiadau ar hyn o bryd i'w systemau a phrosesau er mwyn 'diffodd' y broses o gasglu TDDS yn yr Alban – bydd ffigurau'r costau ar gyfer y

gwaith ar gael yn ddiweddarach yn 2014. Bydd prif gostau gweithredu'r dreth ddatganoledig yng Nghymru yn dibynnu ar strwythur a natur unrhyw dreth ar drafodion tir y bydd y Cynulliad yn deddfu i'w rhoi ar waith.

Nododd y Comisiwn na fyddai trethi datganoledig yn gwneud fawr i gynyddu atebolrwydd ariannol y sefydliadau datganoledig yng Nghymru (o'i gymharu â datganoli treth incwm), ond y byddent yn helpu i rymuso Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion polisi. Byddai hyn yn ei dro yn helpu i wneud Llywodraeth Cymru yn fwy atebol i'r cyhoedd yng Nghymru. Ni fyddai'r opsiwn o wneud dim yn cyflawni'r amcan polisi o ddarparu ffrwd referniw annibynnol i Lywodraeth Cymru neu roi ysgogiadau polisi ychwanegol iddi dros bolisi tai.

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Mae'r ffurflenni TDDS presennol eisoes yn dangos (drwy god dynodi) ym mha ardal awdurdod lleol yr oedd y trafodiad tir wedi digwydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn galluogi Cyllid a Thollau EM ac unrhyw gorff a sefydlir yn y dyfodol i gasglu a rheoli trethi datganoledig i wahaniaethu rhwng trafodion yng Nghymru a Lloegr.

Ar gyfer y rhan fwyaf o drafodion tir, nid oes lle i gredu y bydd y baich am sicrhau cydymffurfiaeth yng Nghymru neu mewn rhan arall o'r DU yn fwy o ganlyniad i ddatganoli TDDS yng Nghymru. Er y bydd effeithiau penodol y dreth ddatganoledig newydd ar drafodion tir yn dibynnu ar y penderfyniadau y bydd y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn eu gwneud, gellir disgwyl na ddylai unrhyw feichiau ychwanegol sylweddol o ran cydymffurfio godi yn achos trafodion tir sy'n digwydd naill ai yng Nghymru yn unig neu y tu allan i Gymru yn unig. Efallai y bydd rhai beichiau ychwanegol ar y rheini sy'n cyflawni trafodion sy'n cynnwys tir yng Nghymru ac mewn man arall yn y DU, o gofio y bydd unrhyw dreth newydd ar drafodion tir yng Nghymru yn debygol o fod yn ddarostyngedig i weithdrefnau newydd sy'n wahanol i'r rheini sy'n berthnasol i TDDS.

Nid oes systemau ar wahân ar gyfer cofrestru tir yng Nghymru a Lloegr ac mae nifer cyfyngedig o deitlau cofrestredig ac anghofrestredig i dir yn pontio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Ar ôl i dreth ddatganoledig newydd ar drafodion tir gael ei rhoi ar waith yng Nghymru, byddai angen gwahanu'r teitlau hyn yn elfennau Cymreig a Seisnig at ddibenion treth. Gan nad oes ffordd o weinyddu hyn yn ganolog, mae'n debygol, yng nghyswllt y nifer cyfyngedig hwn o achosion, y byddai'r baich cydymffurfio yn cael ei ysgwyddo gan drawsgludwyr a fyddai'n debygol, yn eu tro, o'i drosglwyddo i'w cleientiaid drwy godi ffioedd uwch.

TRETH TIRLENWI

Roedd y Comisiwn yn argymhell datganoli treth tirlenwi, gyda gostyngiad cyfatebol yn cael ei wneud i'r grant bloc. Byddai hyn yn galluogi'r Cynulliad i godi ei drethi ei hun ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

Amcan y polisi

Darparu ffrwd referniw annibynnol arall i Lywodraeth Cymru gan roi iddi y dulliau cyllidol mwyaf priodol ar gyfer rheoli polisi rheoli gwastraff yng Nghymru.

Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim)

Mae'r Bil yn rhoi rheolaeth lawn i'r Cynulliad ynghylch a ddylid/sut i godi trethi ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

Byddai'r opsiwn gwneud dim yn golygu y byddai'r pŵer i osod treth tirlenwi yng Nghymru yn aros gyda Llywodraeth y DU.

Costau a buddion pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)

Mae'r Llywodraeth wedi cytuno ag argymhelliad y Comisiwn y byddai o fudd i Lywodraeth Cymru petai'n gallu rhoi treth ddatganoledig newydd ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi ar waith a fyddai'n addas i amgylchiadau penodol Cymru. Nododd y Comisiwn yn ei adroddiad Rhan I fod y dystiolaeth a

dderbyniodd yn ategu'r ddadl o blaid datganoli treth tirlenwi gan y byddai'n rhoi mecanwaith defnyddiol iddo mewn maes polisi sydd eisoes wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad (rheoli gwastraff). Byddai hefyd yn darparu ffrwd refeniw annibynnol ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru ei defnyddio i fenthycu er mwyn buddsoddi mewn seilwaith cyfalaf.

Ar hyn o bryd mae 203 o weithredwyr tirlenwi ar gofrestr treth tirlenwi CThEM ar gyfer y DU. O'r 723 o safleoedd tirlenwi sy'n cael eu rhedeg gan y gweithredwyr hyn, mae 29 (4%) yng Nghymru. Yn ôl amcangyfrif y Comisiwn, y refeniw o dreth tirlenwi yng Nghymru yn 2010-11 oedd tua £50 miliwn, neu ychydig llai na 6% o gyfanswm y DU. Yn fwy diweddar, mae CThEM wedi cyhoeddi ffigurau ar gyfer y cyfnod rhwng 1999-00 a 2012-13, sy'n dangos eto fod y refeniw o dreth tirlenwi yng Nghymru oddeutu £50 miliwn, neu 4.5% o gyfanswm y DU, yn 2012-13.

Bydd costau'r newidiadau sydd eu hangen yn systemau TG a phrosesau busnes Cyllid a Thollau EM i ddatganoli'r dreth tirlenwi yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn gyson â Datganiad Polisi Ariannu Llywodraeth y DU. *Mae Cyllid a Thollau EM yn gwneud newidiadau ar hyn o bryd i'w systemau a phrosesau er mwyn 'diffodd' y broses o gasglu'r dreth tirlenwi yn yr Alban – bach iawn fu cost y gwaith hwn. Bydd prif gostau gweithredu'r dreth ddatganoledig yng Nghymru yn dibynnu ar strwythur a natur unrhyw dreth a godir ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru y bydd y Cynulliad yn deddfu i'w rhoi ar waith.*

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Nid yw'r ffurflen bresennol ar gyfer treth tirlenwi a ddarperir i weithredwyr cofrestredig gan CThEM yn gofyn iddynt nodi lleoliad daearyddol eu gweithgarwch trethadwy. Felly mae'n debygol y bydd datganoli treth tirlenwi yng Nghymru yn galw am gael ffurflen benodol i Gymru i ddatgan ffigurau ar gyfer treth tirlenwi. Er ei bod yn bosibl y bydd gweithredwyr tirlenwi sy'n gweithio ar draws safleoedd yng Nghymru a gweddill y DU yn wynebu baich ychwanegol cyfyngedig drwy orfod rhoi datganiadau ar wahân ar gyfer treth tirlenwi i bob gweinyddiaeth, yn gyffredinol ni fydd dim neu fawr o gynnydd yn y baich o ran cydymffurfio. Yma eto, mae union natur y baich cydymffurfio yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru am y dreth ddatganoledig newydd ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

BENTHYCA CYFREDOL

Problem dan ystyriaeth

Mae datganoli TDDS a'r Dreth Tirlenwi yn ychwanegu cyfnewidioldeb at Gyllideb Cymru o'i gymharu â'r system bresennol o ariannu drwy'r grant bloc. Y rheswm am hyn yw'r amrywiadau posibl mewn refeniw oherwydd amrywiadau economaidd a thymhorol. Bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd reoli gwallau mewn rhagolygon, yn enwedig os bydd refeniw o drethi datganoledig yn digwydd bod yn is na'r hyn a ragwelwyd.

Amcan y polisi

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i roi i Lywodraeth Cymru y dull mwyaf effeithiol o reoli cyfnewidioldeb a gwallau mewn rhagolygon.

Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim)

Mae Bil Cymru yn ymestyn pwerau benthyca presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer y tymor byr. Yn ogystal â gallu benthyca i reoli llif arian yn ystod y flwyddyn (fel sy'n digwydd nawr) bydd Llywodraeth Cymru yn gallu benthyca ar draws blynedd. Bydd y terfyn presennol ar fenthyca o £500 miliwn (a nodir yn adran 122 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) yn berthnasol i fenthyca o'r fath. Ochr yn ochr â'r pwerau benthyca estynedig hyn, mae cronfa arian yn cael ei darparu i Lywodraeth Cymru. Er nad oes angen deddfwriaeth ar gyfer hyn, ac felly heb fod yn rhan o Fil Cymru, bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i gronni arian wrth gefn pan geir refeniw uchel o drethi datganoledig a defnyddio'r arian wrth gefn (yn hytrach na benthyca) pan fydd y refeniw o drethi datganoledig yn is na'r hyn a ragwelwyd.

Byddai'n bosibl rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru i fenthyca i ddelio â chyfnewidioldeb yn y refeniw o drethi, ond heb osod terfyn ar y benthyca hwnnw. Opsiwn arall fyddai ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddelio ag unrhyw gyfnewidioldeb gan ddefnyddio ei chyllideb gyfredol a chreu cronfa arian wrth gefn.

Costau a buddion pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)

Yn gyson ag argymhellion y Comisiwn, nid yw Llywodraeth y DU yn teimlo bod angen cyflwyno cyfnewidioldeb i gyllideb Llywodraeth Cymru (drwy ddatganoli trethi) heb ddarparu'r peirianweithiau i reoli'r cyfnewidioldeb hwn. Fel arall, canlyniad datganoli trethi fyddai cyflwyno cyfnewidioldeb annerbyniol i'r lefelau ariannu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yng Nghymru.

O ran cyfyngu ar fenthyca cyfredol, edrychodd y Comisiwn ar dystiolaeth o wledydd tramor (a thystiolaeth ychwanegol a gafodd) a oedd o blaid cynnwys benthyca cyfredol mewn fframwaith sy'n cyfyngu ar faint y benthyca. Felly penderfynodd y Comisiwn y byddai'n briodol gosod terfyn, ac argymhell ei osod ar y dechrau ar yr un lefel â'r trefniadau presennol. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn. I gyfyngu ymhellach ar effaith bosibl benthyca ychwanegol, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu mai dim ond pan fydd refeniw Cymru o drethi yn is na'r hyn a ragwelwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn cael benthyca i ariannu gwariant cyfredol.

Fel y nodwyd uchod, oni fydd Llywodraeth Cymru yn cael y gallu i reoli'r amrywiadau yn ei chyllideb, gallai arwain at gyfnewidioldeb sylweddol ac annerbyniol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, ac, yn ei dro, yn lefel y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru.

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Dim.

BENTHYCA CYFALAF

Problem dan ystyriaeth

Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu benthyca ar gyfer prosiectau cyfalaf.

Amcan y polisi

Yn ei datganiad ar y cyd â Llywodraeth Cymru yn Hydref 2012, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod o blaid yr egwyddor o ddarparu pwerau benthyca i Lywodraeth Cymru i'w helpu i ariannu prosiectau seilwaith cyfalaf, ar yr amod bod llif refeniw annibynnol ar gael i gynnal hyn.

Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim)

Mae'r Bil yn gweithredu argymhellion y Comisiwn drwy ganiatáu i Lywodraeth Cymru fenthyca at ddibenion cyfalaf, wedi'i gynnal i ddechrau gan y refeniw a fydd ar gael wrth ddatganoli'r Dreth Tirlenwi a TDDS. Mae'r Bil yn cyflwyno terfyn ar fenthyca cyfalaf o £500 miliwn ac mae'n darparu y gall Llywodraeth y DU, drwy is-ddeddfwriaeth, newid y terfyn hwn (i fyny neu i lawr ond heb fod o dan y £500 miliwn cychwynnol), er enghraifft yn dilyn pleidlais "o blaid" mewn refferendwm dilynol ar dreth incwm.

Rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru i fenthyca, ond peidio â gosod terfyn ar wyneb y Bil (neu, fel opsiwn arall, osod terfyn uwch).

Rhoi pwerau benthyca cyfredol ond nid pwerau benthyca cyfalaf i Lywodraeth Cymru.

Costau a buddion pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)

Mae'r Llywodraeth yn nodi fod y Comisiwn, yn ei adroddiad ar Ran 1, wedi canfod fod cynifer â 80% o'r rheini a holwyd ar gyfer arolwg barn yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer i fenthyca, ac mae'n cydnabod bod y "dystiolaeth o wledydd tramor yn awgrymu ei bod yn bosibl mai benthyca yw'r ffordd fwyaf darbodus a theg o ariannu gwariant cyfalaf gan lywodraethau is-genedlaethol ar y sail bod benthyca'n gallu gwella'r dyrannu ar adnoddau dros amser". Mae benthyca hefyd yn darparu elfen ychwanegol o atebolrwydd ariannol, gan ei fod yn rhoi'r hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru i benderfynu ynghylch pryd a sut i fuddsoddi yn economi Cymru.

Er mwyn rheoli benthyca cyhoeddus cyffredinol, mae'n arferol i lywodraeth genedlaethol gyfyngu ar fenthyca gan lywodraeth is-genedlaethol. Dyma felly'r dull sydd wedi'i gymryd yn yr achos hwn, fel yn achos yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon bwerau a chyfrifoldebau tebyg i awdurdodau lleol yn rhannau eraill o'r DU. Yn benodol, mae ganddi reolaeth dros ffrydiau refeniw tebyg¹ ac o ganlyniad, y bwriad yw bod terfyn benthyca cyfalaf Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn ei galluogi i fenthyca sy'n cyfateb i awdurdodau lleol yn benthyca yng ngweddill y DU. Felly, nid yw terfyn benthyca cyfalaf Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn gysail perthnasol wrth osod terfynau benthyca cyfalaf yng Nghymru ac yn yr Alban.

O ran yr union derfyn sydd wedi'i osod yn y Bil, byddai defnyddio'r un gymhareb trethi / benthyca a ddefnyddir yn yr Alban wedi rhoi terfyn o ryw £100 miliwn i Lywodraeth Cymru (ochr yn ochr â datganoli oddeutu £200 miliwn o refeniw o TDDS a'r dreth tirlenwi). Yn benodol, mae terfyn benthyca cyfalaf Llywodraeth yr Alban yn £2.2bn a daw'n gyfrifol am refeniw trethi sy'n werth tua £5bn ar hyn o bryd. Felly, mae'r gymhareb rhwng y ddwy ychydig yn llai na 1:2.

Ond, mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd gwneud gwelliannau i'r M4 yng Nghymru. Felly, mae wedi penderfynu gosod terfyn benthyca cychwynnol o £500 miliwn, fel bod gan Lywodraeth Cymru yr arian ar gael i wneud gwelliannau i'r M4 os bydd yn penderfynu gwneud hynny. Mae Bil Cymru hefyd yn cynnwys pŵer lle gall Llywodraeth y DU amrywio'r terfyn cyffredinol i fyny ac i lawr (ond nid o dan y £500 miliwn cychwynnol) heb ragor o ddeddfwriaeth sylfaenol. Yn flaenorol, roedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar broses ar y cyd i adolygu lefelau cydgyfeirio gyda chyllid Cymru ym

1 Mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon reolaeth dros gyfraddau dosbarth a chyfraddau rhanbarthol sydd, gyda'i gilydd, yn cyfateb i gyfraddau busnes a threth gyngor yng ngweddill y DU.

mhob Adolygiad o Wariant, ac mae Llywodraeth y DU yn cynnig ymestyn y broses i sicrhau bod y terfyn benthycy cyfalaf yn parhau i fod yn briodol. Bydd y terfyn yn cael ei osod ar lefel sydd, ym marn Llywodraeth y DU, yn briodol ar sail ei hasesiad o'r amgylchiadau economaidd ac ariannol pan gynhelir pob Adolygiad o Wariant, effaith chwyddiant ar werth gwirioneddol y terfyn, ac ar sail faint o ffrwd referniw annibynnol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Ar ben hynny, o fewn y terfyn cyffredinol, cytunwyd ar derfyn blynyddol o £125 miliwn â Llywodraeth Cymru (o 2018-19 ymlaen) nad yw'n rhan o unrhyw ddeddfwriaeth. Ynghyd â'r cap cyffredinol, mae'r terfyn blynyddol hwn yn sicrhau bod y Llywodraeth yn cadw ei rheolaeth dros gyfanswm benthycy'r sector cyhoeddus ar draws y DU. Os caiff elfen o dreth incwm ei datganoli i Gymru, byddai'r Llywodraeth yn adolygu'r terfyn blynyddol (a'r terfyn cyffredinol) gan ddisgwyl y byddai hyn yn symud at yr hyn (10 y cant o derfynau DEL cyfalaf pob blwyddyn) a ddefnyddir yn yr Alban.

Pe na fyddai Llywodraeth Cymru yn cael pwerau benthycy cyfalaf (neu petai'r pwerau hyn wedi'u cyfyngu i'r lefel a awgrymir gan y gymhareb trethi / benthycy yn yr Alban) byddai buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru yn llawer llai. Byddai hyn yn ei dro yn lleihau gallu Llywodraeth Cymru i sbarduno economi Cymru a byddai'n cyfyngu ar y potensial ar gyfer twf. Nododd y Comisiwn yn ei adroddiad Rhan I y byddai nifer o fanteision heb werth ariannol yn codi o ddatganoli pwerau benthycy, gan gynnwys grymuso Llywodraeth Cymru a'i gwneud yn fwy atebol drwy roi mwy o hyblygrwydd iddi ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau seilwaith o werth uchel nag sydd ganddi ar hyn o bryd. Byddai hyn yn ei dro yn gallu hybu twf ac effeithlonrwydd.

Ond, yn gyson â chynyddu atebolrwydd ariannol Llywodraeth Cymru, mae'n hanfodol bod benthycy'n cael ei gyfyngu o fewn fframwaith cyllidol ehangach y DU. Nododd Comisiwn Silk fod y perygl o fenthycy gormodol yn thema gyffredin yn y dystiolaeth a gafodd. Felly, mae'r terfyn sy'n cael ei osod gan Fil Cymru yn sicrhau bod y lefelau benthycy yn aros yn fforddiadwy, ar gyfer Llywodraeth Cymru (a fydd angen cynnal y costau benthycy) ac o fewn cynlluniau lleihau diffyg cyffredinol Llywodraeth y DU.

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Yn ogystal â benthycy oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, gall Gweinidogion Cymru hefyd fenthycy oddi wrth ffynonellau masnachol i ariannu eu gwariant cyfalaf. Gall hyn felly roi cyfleoedd i fanciau yng Nghymru i gefnogi buddsoddiad cyfalaf yng Nghymru.

RHAN 3 – CYMHORTHDAL Y CYFRIF REFENIW TAI (HRAS)

Problem dan ystyriaeth

Cafodd y system HRAS yn Lloegr ei diddymu o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, a rhoddwyd rheolaeth i bob awdurdod lleol dros ei stoc tai yn gyfnewid am daliad untro i lywodraeth ganol. Mae'r diwygiad hwn yn cynyddu refeniw awdurdodau lleol (gan eu bod yn cadw incwm rhent). Felly, mae rheolaethau priodol wedi cael eu rhoi ar waith i reoli benthyca o dan y system Ddarbodus. Nid yw'r system HRAS wedi'i diwygio yng Nghymru.

Amcan y polisi

Yr amcan yw hwyluso'r gwaith o ddiwygio'r system HRAS yng Nghymru drwy sicrhau bod benthyca yn y maes tai yn ddarostyngedig i reolaethau priodol.

Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim)

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno i osod terfynau ar fenthyca gan awdurdodau lleol Cymru yng nghyswllt tai. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth a fydd yn galluogi Llywodraeth y DU i osod cap cyfunol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod cap ar awdurdodau lleol unigol. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i'r rheini a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 171-173 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.

Mae dau ddewis arall posibl – gallai Llywodraeth Cymru osod y cap cyffredinol, neu gellid peidio â gosod cap o gwbl. Cafodd y ddau eu gwrthod fel y gall Llywodraeth y DU reoli benthyca o fewn ei chynlluniau lleihau diffyg.

Costau a buddion pob opsiwn (gan gynnwys baich gweinyddol)

Ym mis Gorffennaf 2009 cyhoeddodd y Llywodraeth ei phapur ymgynghori *Reform of Council Housing Finance*, lle y disgrifiodd y Llywodraeth yr opsiwn y mae'n ei ffafrio, sef diddymu cymhorthdal y cyfrif refeniw tai yn Lloegr a rhoi system hunangyllido ddatganoledig yn ei le. Yr opsiwn arall oedd cadw'r system bresennol a'i gwella. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ffafrio cyflwyno system ddatganoledig yn lle HRAS. Ar ôl hynny, ym Mawrth 2010, cyhoeddwyd y papur ymgynghori *Council Housing: A Real Future*, a oedd yn rhoi eglurhad manylach o'r cynigion ar gyfer hunan-gyllido. Roedd y crynodeb o ymatebion i'r papur hwn yn dangos bod mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno ag egwyddor hunangyllido.

Cyn cyflwyno'r system bresennol yn Lloegr, o dan adran 173 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 roedd yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â chynrychiolwyr llywodraeth leol a phob awdurdod lleol yn Lloegr. Ar ôl hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y penderfyniadau ynghylch hunan-gyllido rhwng Tachwedd 2011 ac Ionawr 2012. Yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, nododd y Llywodraeth nad oedd y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol a ymatebodd wedi herio egwyddorion hunan-gyllido na'r fethodoleg gyffredinol ar gyfer cyfrifo setliadau a thaliadau prisio.

O dan y system HRAS bresennol yng Nghymru mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif maint yr incwm a'r gwariant disgwylidig ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru mewn cysylltiad â'i stoc dai. Os yw'r amcangyfrif o wariant yng Nghymru yn uwch nag incwm, mae Llywodraeth y DU yn ysgwyddo'r diffyg. Fodd bynnag, os yw incwm yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn fwy na gwariant, yna mae'r gwarged (yr amcangyfrifwyd ei fod tua £73 miliwn y flwyddyn) yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth y DU. Yn y dyfodol, yn dilyn y diwygiadau arfaethedig, bydd awdurdodau lleol Cymru yn cadw unrhyw warged a geir, tua £33 miliwn y flwyddyn yn ôl yr amcangyfrif (ar ôl gwneud taliadau untro gan awdurdodau lleol i Lywodraeth y DU, drwy Lywodraeth Cymru). Drwy gadw'r gwargedau hyn, bydd mwy o ymreolaeth gan awdurdodau lleol yng Nghymru gan y byddant yn gallu benthyca cyllid ychwanegol i wella eu stoc dai er budd pobl Cymru. Mae'n debygol y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â mabwysiadu'r system newydd yng Nghymru er nad yw'n bosibl eu mesur yn union gan fod costau o'r fath yn dibynnu ar benderfyniadau polisi a wneir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Gwrthododd y Llywodraeth y ddau opsiwn gan nad oeddynt yn darparu digon o reolaeth dros fenthyca ychwanegol.

Costau a buddion uniongyrchol i fusnes

Dim

Y SAIL RESYMEGOL DROS LEFEL Y DADANSODDI A DDARPARWYD

Mae lefel y dadansoddi yn yr asesiad effaith hwn wedi'i chyfyngu gan natur y darpariaethau sy'n cael eu trafod. Mae llawer o'r darpariaethau yn y Bil, yn enwedig y rheini yn Rhan 2 (Cyllid), yn datganoli pwerau i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru - er enghraifft, y pwerau i lunio trethi datganoledig i ddisodli treth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi yng Nghymru, trefnu refferendwm yng nghyswllt datganoli treth incwm a rhagnodi trefniadau cyllidebol yn ymwneud â'r gyllideb flynyddol.

Rydym wedi ceisio rhoi syniad o gostau a buddion posibl y newidiadau hyn lle roedd hynny'n ymarferol a darparu sail resymegol gadarn ar gyfer ein penderfyniadau. Lle bo'n briodol, rydym wedi defnyddio gwybodaeth yn adroddiad cyntaf y Comisiwn Silk, ac mae dadansoddiad pellach, manwl o lawer o'r materion hyn ar gael yn yr adroddiad hwnnw.

<http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/files/2012/11/Welsh-WEB-main-report.pdf>

Ond, yn naturiol, mae ein dadansoddiad yn gyfyngedig gan nad ydym yn gwybod sut y bydd y Cynulliad a Gweinidogion Cymru yn dewis arfer eu pwerau newydd. Bydd gwir gostau a buddion llawer o ddarpariaethau yn y Bil yn dibynnu ar y penderfyniadau y bydd y sefydliadau datganoledig yn eu gwneud yn y dyfodol.

RISGIAU A THYBIAETHAU

Mae unrhyw risgiau a thybiaethau sydd wedi'u gwneud yn y dadansoddiad hwn wedi'u nodi yn yr adrannau polisi manwl.

UN I MEWN, DAU ALLAN

Mae natur y darpariaethau yn y Bil yn gyfansoddiadol yn bennaf, ac nid ydynt yn gosod unrhyw reoliadau ar fusnesau yn uniongyrchol (gweler yr adran *sail resymegol* uchod). Oherwydd hyn, mae'r mesurau y tu allan i'r gofyniad un i mewn dau allan.

EFFEITHIAU EHangach Y BIL

Yn yr asesiad effaith hwn, mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr effeithiau posibl y bydd datganoli rhai trethi i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn eu cael ar gystadleuaeth a busnesau bach, gan ddod i'r casgliad bod yr effeithiau hynny yn gyfyngedig i'r graddau y gellir pennu'r rheini ar hyn o bryd. Rydym hefyd wedi nodi nad yw effeithiau datganoli cyllidol o anghenraid wedi'u cyfyngu i effeithiau ariannol – er enghraifft, gallai treth newydd ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru arwain at effeithiau amgylcheddol amrywiol, yn dibynnu ar fanylion y dreth newydd. Bydd effeithiau ehangach y Bil yn dibynnu'n rhannol ar y ffordd y bydd y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn arfer y pwerau datganoledig yn y dyfodol.

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried a fydd unrhyw effeithiau cymdeithasol neu gydraddoldeb yn sgil y Bil ac nid yw'n ystyried y bydd. Nid ydym ychwaith yn credu y bydd yn cael unrhyw effaith ar y Sector Gwirfoddol ac Elusennol.

CYNLLUN ADOLYGU AR ÔL GWEITHREDU

Sail yr adolygiad: Fel gyda holl Ddeddfau'r Llywodraeth, bydd Deddf Cymru (os caiff ei gwneud yn Ddeddf) yn destun craffu ar ôl y broses ddeddfu, 3- 5 mlynedd ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Mae cymal 22 y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn darparu adroddiad blynyddol i'r Senedd, a bod Gweinidogion Cymru yn rhoi adroddiad blynyddol i'r Cynulliad, ar weithredu Rhan 2 (Cyllid).

Amcan yr adolygiad: Bydd craffu ar ôl y broses ddeddfu yn delio â rhoi'r Ddeddf ar waith (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth), y ffordd y mae'r Ddeddf yn gweithredu yn ymarferol, materion cyfreithiol, y gwir effeithiau o'i gymharu â'r rhai a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith a pherfformiad y ddeddfwriaeth yn erbyn yr amcanion polisi. Mae is-adran 22(7) o'r Bil yn pennu manylion y bydd yn rhaid i adroddiad ar weithrediad Rhan 2 eu cynnwys.

Sail resymegol a dull yr adolygiad: Bydd craffu ar ôl y broses ddeddfu yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y polisi, a rhoi'r polisi ar waith, gan ddefnyddio'r adroddiadau blynyddol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru. Yn benodol, byddid yn gofyn am farn Llywodraeth Cymru. Comisiwn y Cynulliad a rhanddeiliaid yng nghyswllt y trethi datganoledig. Gellir adolygu'r newidiadau yn y trefniadau etholiadol yn dilyn etholiadau arferol y Cynulliad yn 2016 a 2021. Bydd yr adolygiad o'r trethi datganoledig yn ystyried y broses ddatganoli a'r broses o'u rhoi ar waith, yn hytrach na gweithrediad y trethi newydd (a fydd yn fater i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru). Gall effeithiolrwydd pŵerau benthyca newydd Gweinidogion Cymru gael ei adolygu'n barhaus.

Llinell sylfaen: Amherthnasol

Meini prawf llwyddiant: O ran trefniadau etholiadol, byddai gweithredu'r Bil yn llwyddiannus yn arwain at system decach a system sy'n gwella uniondeb etholiadau'r Cynulliad. O ran datganoli cyllidol byddai gweithredu'r Bil yn llwyddiannus yn golygu bod y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn defnyddio'u dulliau cyllidol newydd i ddatblygu economi Cymru a hybu twf economaidd. Byddai hefyd yn golygu bod y Cynulliad yn arfer ei bŵer i drefnu refferendwm ar ddatganoli rhywfaint o dreth incwm. O ran benthyca, byddai gweithredu'r Bil yn llwyddiannus yn golygu, er enghraifft, bod Gweinidogion Cymru yn defnyddio'u pŵerau benthyca newydd i fuddsoddi mewn gwelliannau i seilwaith Cymru.

Trefniadau monitro gwybodaeth: Bydd Swyddfa Cymru, Trysorlys EM, Cyllid a Thollau EM a Llywodraeth Cymru i gyd yn monitro gweithrediad mesurau'r Bil. Disgrifir y broses adrodd ffurfiol ar weithrediad y mesurau ariannol yng nghymal 22 y Bil.

Rhesymau dros beidio â chynllunio adolygiad ar ôl gweithredu: Amherthnasol